

Adolygiad Dilynol Llywodraethu Ansawdd –Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4055A2024

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a rhai cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol ar y cyd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân, bob un â'i swyddogaethau cyfreithiol ei hun fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ei hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol, neu i unrhyw drydydd parti, mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod Adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and phone calls in both English and Welsh. Correspondence in Welsh will not result in delays.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Canfyddiadau allweddol | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Gweithredu argymhellion archwilio 2022 | 8 |
| Ymateb i ofynion Dyletswydd Gonestrwydd a Dyletswydd Ansawdd | 19 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – ein hargymhellion llywodraethu ansawdd 2022 | 22 |
| Atodiad 2 – dulliau archwilio | 26 |
| Atodiad 3 – ymateb sefydliadol i argymhellion Archwilio 2022 a 2024 | 28 |

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Dylai ansawdd fod wrth wraidd pob agwedd ar ofal iechyd ac mae 'rhoi ansawdd a diogelwch' uwchlaw dim arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru.
- 2 Mae'r ymgyrch i wella ansawdd wedi ei hatgyfnerthu mewn strategaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol olynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau ansawdd ar draws y system, yn ogystal â gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrf y GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith i alluogi dysgu. Mae'r Ddeddf yn nodi bod ansawdd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad defnyddwyr gwasanaeth.
- 3 Yn ystod 2021-22, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol drefniadau llywodraethu ansawdd ar draws yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar:
 - dulliau gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd;
 - diwylliant ac ymddygiad sefydliadol;
 - strategaeth, strwythurau a phrosesau; a
 - llifedd gwybodaeth ac adrodd.
- 4 Canfu [adolygiad 2022 o lywodraethu ansawdd yn Ymddiriedolaeth GIG](#) Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) er bod sawl agwedd ar ei threfniadau llywodraethu ansawdd yn gweithio'n dda, bod angen gwelliannau i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei hysbysu'n llawn am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau. Fe wnaethom hefyd ganfod fod angen i'r Ymddiriedolaeth gryfhau adroddiadau difrifol am ddigwyddiadau ar draws ffiniau sefydliadol. Gwnaethom wyth argymhelliad i'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â nhw, a ddangosir yn **Atodiad 1**.
- 5 Ers cynnal ein hadolygiad yn 2022, cytunwyd ar y gofynion penodol sy'n sail i'r Dyletswyddau ar gyfer Gonestrwydd ac Ansawdd (a gyflwynwyd o dan y Ddeddf), a dylai pob corff iechyd fod wedi gwneud cynnydd da i weithredu trefniadau i fodloni'r gofynion hynny.
- 6 Felly, bydd yr adolygiad dilynol llywodraethu ansawdd hwn nid yn unig yn asesu cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu'r argymhellion a wnaethom yn ein hadolygiad llywodraethu ansawdd 2022 ond bydd hefyd yn ystyried y sicrwydd a roddir i'r Bwrdd bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i ymateb i ofynion y Ddeddf.
- 7 Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 2**.

Canfyddiadau allweddol

- 8 Ar y cyfan, gwelsom **fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhai gwelliannau i'w strwythurau llywodraethu ansawdd, gan gynnwys ymateb i'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Fodd bynnag, mae lle ar gyfer gwelliannau pellach mewn rhai meysydd i gryfhau sicrwydd sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch ei wasanaethau.**

Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol

- 9 Canfuom **er y gall yr Ymddiriedolaeth ddangos rhywfaint o gynnydd wrth weithredu argymhellion archwilio blaenorol, mae mwy i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn.**
- 10 Canfu ein hadolygiad o gynnydd yn erbyn ein hargymhellion adolygu llywodraethu ansawdd 2022 fod tri o'r wyth argymhelliad diwethaf wedi'u cwblhau. Mae'r argymhellion sydd wedi eu cwblhau yn ymwneud â gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth ar archwiliadau clinigol a'u monitro, datblygu gwell trefniadau ar gyfer ymweliadau aelodau bwrdd a gweithredu argymhellion yn ymwneud â'r fframwaith ymchwilio ar y cyd. Fe wnaethom ddisodli ein hargymhelliad ar fonitro darpariaeth Strategaeth Ansawdd 2021-24.
- 11 Ar gyfer pedwar argymhelliad, canfuom, er bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â nhw, bod mwy i'w wneud i'w hystyried wedi eu cwblhau. Roedd y rhain yn cynnwys cyrraedd targed yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Arfarniadau Personol ac Adolygiadau Datblygu (PADRs), datblygu ei chynlluniau i fynd i'r afael ag ôl-groniad yr adolygiad marwolaethau, cynyddu ei thriogli o wybodaeth perfformiad o ansawdd ar draws metrigau, a pharhau i weithio gyda phartneriaid i gydlynu gwybodaeth i gefnogi nodi canlyniadau a gwybodaeth. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd i weithredu'r pedwar argymhelliad sy'n weddill ochr yn ochr â'r argymhellion newydd sy'n codi yn yr adolygiad hwn.

Ymateb i ofynion Dyletswydd Gonestrwydd a Dyletswydd Ansawdd

- 12 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i weithredu'r dyletswydd ansawdd a dyletswydd gonestrwydd, fodd bynnag, mae gwendidau o ran y cynnydd yn ymwneud ag eglurder adrodd ac mae lle i wella'r nifer sy'n derbyn hyfforddiant a'i fonitro.**
- 13 Cyn gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023, asesodd yr Ymddiriedolaeth ei pharodrwydd o gymharu â llinell sylfaen Llywodraeth Cymru.
- 14 Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth sesiynau Bwrdd i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf newydd. Cefnogwyd staff drwy fodiwlau e-ddysgu i helpu i ddeall ac ymateb i'r gofynion newydd. Fodd bynnag, mae yna heriau o hyd. Er bod hyfforddiant ar

waith ar y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, mae cyfraddau cydymffurfio isel ac anawsterau o ran deall faint o staff oedd wedi cwblhau rhywfaint o hyfforddiant yn creu risg nad oes digon o ddealltwriaeth gan staff.

- 15 Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn olrhain cynnydd i weithredu gofynion o dan y dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd gan ddefnyddio map ffordd Llywodraeth Cymru a'i bod wedi datblygu cynllun gweithredu. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau sicrwydd trwy fwy o eglurder o fewn adroddiadau cynnydd i'r pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion (QuEST). Yn olaf, oherwydd ôl-groniad o bolisiâu sydd i'w hadolygu, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu a diweddarau polisiâu allweddol fel y bo'n briodol i adlewyrchu gofynion y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.

Argymhellion

- 16 Crynhoir statws ein hargymhellion o archwiliad 2022 yn **Arddangosyn 1**. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys ein hasesiad o gynnydd ar gyfer pob un o'n hargymhellion yn 2022.

Arddangosyn 1: statws ein hargymhellion o 2022

| Wedi'u Cwblhau | Ar y gweill | Dim gweithredu | Wedi'u disodli | Cyfanswm |
|----------------|-------------|----------------|----------------|----------|
| 3 | 4 | 0 | 1 | 8 |

- 17 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos manylion yr argymhellion newydd sy'n codi o'r adolygiad hwn. Ceir ymateb cryno yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion yn 2024 yn **Atodiad 3**, sydd hefyd yn cynnwys camau rheoli wedi'u diweddarau yn erbyn argymhellion 2022 yr ystyriwn eu bod yn anghyflawn (h.y. ar y gweill) ar adeg ein hadolygiad.

Arddangosyn 2: argymhellion 2024

Argymhellion

Strategaeth Ansawdd

- A1 Wrth i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu Cynllun Ansawdd newydd yn 2024, dylai sicrhau bod modd ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Dylai'r cynllun fanylu'n glir y cyllid sydd ei angen, y risgiau o dangyflawni (oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti ac adnoddau) a bod wedi'i ategu gan gynllun gweithredu.

Argymhellion

Monitro Strategaeth Ansawdd

A2 Mae lle i gryfhau adrodd ar gyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth ansawdd. Er mwyn gwella eglurder, dylai'r Ymddiriedolaeth, yn ei adroddiadau cynnydd:

- 2.1 roi amserlenni o ran pryd y mae'n disgwyl cyflawni pob cam gweithredu;
- 2.2 gwahaniaethu rhwng cynnydd camau gweithredu unigol ac allbynnau strategol; a
- 2.3 sicrhau bod adroddiadau cynnydd yn cael eu hadrodd yn rheolaidd ac yn cael eu cynnwys yng nghylch busnes QuEST.

Cynllun Archwilio Clinigol

A3 Mae cyfleoedd i wella ymhellach adroddiadau ar swyddogaeth Archwilio Clinigol yr Ymddiriedolaeth, drwy:

- 3.1 amlygu'n gliriach unrhyw newidiadau a wnaed i'r Cynllun Archwilio Clinigol cymeradwy; a
- 3.2 cofnodi canfyddiadau allweddol, canlyniadau a dysgu o archwiliadau wedi'u cwblhau.

Hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd ac Ansawdd

A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i gynyddu'r cyfraddau o ran y nifer sy'n derbyn hyfforddiant dyletswydd ansawdd a dyletswydd gonestrwydd, er mwyn sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau o dan y gofynion.

Adolygiad polisi

A5 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei pholisïau Gweithio i Wella a Digwyddiadau Niweidiol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Adroddiad manwl

Gweithredu argymhellion archwilio 2022

- 18 Gwnaethom ystyried cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu pob un o'n hargymhellion archwilio yn 2022.

Argymhelliad cyflwyno Strategaeth Ansawdd

Argymhelliad 1 2022

Canfuom fod cyflwyno Strategaeth Ansawdd wedi'i adnewyddu yr Ymddiriedolaeth (2021-2024) wedi ei rwystro'n ddifrifol gan bwysau adnoddau a achoswyd gan y pandemig a diffyg cyllid i gefnogi pedair swydd arwain uwch ar ansawdd sy'n ganolog i'r ddarpariaeth.

Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddarau ei chynllun gweithredu gan amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei huchelgeisiau ansawdd.

- 19 Gwnaethom ystyried a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau ychwanegol i amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei Strategaeth Ansawdd. Rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
- adnodd sy'n cefnogi Cynllun Gweithredu Ansawdd gyda threfniadau monitro addas.
- 20 Canfuom fod **cyflawni Strategaeth Ansawdd 2021-2024 wedi parhau i fod yn arafach na'r disgwyl oherwydd materion adnoddau a chapasiti parhaus, ac mae lle i wella adrodd ar gynnydd.**
- 21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro'r broses o gyflawni ei Strategaeth Ansawdd 2021-2024 drwy gynllun gweithredu. Diweddarwyd y cynllun gweithredu hwn ym mis Mai 2023 a mis Chwefror 2024, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch (QuEST) fel rhan o adroddiad cynnydd ar y cynllun gweithredu. Mae'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd drwy adroddiadau 'Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori' QuEST sy'n tynnu sylw at faterion allweddol a drafodwyd yn ystod pob cyfarfod ac sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd.
- 22 Fodd bynnag, mae'r cynnydd o ran cyflawni Strategaeth Ansawdd 2021-2024 wedi bod yn arafach na'r bwriad, gydag adroddiad cynnydd Mai 2023 yn dangos mai dim ond hanner y camau gweithredu oedd wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn. Dangosodd yr adroddiad i QuEST ym mis Chwefror 2024 gynnydd gwell, gan fod bron i ddwy ran o dair o'r camau gweithredu rhestredig ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu ansawdd naill ai'n gyflawn neu ar y trywydd iawn ar adeg adrodd. Roedd y camau gweithredu a oedd yn weddill ym mis Chwefror 2024 yn cynnwys camau fel datblygu hyfforddiant ar system rheoli ansawdd newydd yr

Ymddiriedolaeth a chynnal gwerthusiad o rolau a chyfrifoldebau ansawdd ar draws y sefydliad.

- 23 Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod sawl rheswm pam nad yw'r cyflawni wedi bod ar y trywydd iawn ar gyfer rhai camau gweithredu, gan gynnwys pwysau a achosir gan donnau parhaus o COVID-19, y galw yn ystod y gaeaf ar ei anterth, a gweithredu diwydiannol gan y gweithlu. Fodd bynnag, y broblem fwyaf arwyddocaol oedd diffyg capasiti parhaus. Yn 2022, gwnaethom sylwadau ar faterion o ran sicrhau cyllid ar gyfer y pedair swydd arwain uwch ym maes ansawdd a nodir yn Strategaeth Ansawdd 2021-2024. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael ei hailstrwythuro'n fewnol i ddarparu dwy o'r swyddi hyn sydd bellach wedi'u llenwi, yn ogystal ag uwch arweinydd llywodraethu ansawdd, ac wedi buddsoddi yn ei thîm Gweithio i wella. Fodd bynnag, mae'r anallu i ariannu a recriwtio i'r swyddi hyn ar ddechrau cylch bywyd y Strategaeth wedi effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni holl gamau gweithredu ei Strategaeth Ansawdd ar y cyflymder yr oedd yn ei fwriadu.
- 24 Wrth i'r Ymddiriedolaeth geisio datblygu Cynllun Ansawdd newydd yn 2024¹, dylai gymryd camau i sicrhau bod ei huchelgeisiau'n gyraeddadwy a bod adnoddau ar gael. Dylai'r Ymddiriedolaeth fod yn glir ar y dechrau beth yw'r goblygiadau cost ar gyfer cyflawni ei huchelgeisiau ansawdd, yn ogystal â'r risgiau sy'n gysylltiedig â thangyflawni (megis cyfyngiadau capasiti ac adnoddau). **Rydym wedi disodli Argymhelliad 1 2022 gydag Argymhelliad 1 2024 i adlewyrchu heriau adnoddau parhaus ym maes ansawdd ac oherwydd bod Cynllun Ansawdd newydd yn cael ei ddatblygu.**
- 25 Mae lle sylweddol i wella'r cynnydd o ran eglurder yr adrodd i gyflawni'r cynllun gweithredu. Nid oedd yr adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd ym mis Mai 2023 a mis Chwefror 2024 yn manylu ar yr amserlenni pryd y disgwylir cyflawni y camau gweithredu a restrir yn y cynllun gweithredu. O ganlyniad, roedd hi'n anodd i aelodau'r pwyllgor ddeall sefyllfa'r camau gweithredu nad oedd ar y trywydd iawn ar adeg adrodd a'r risgiau cysylltiedig. Nid oedd hefyd yn glir a yw'r adroddiadau'n mesur cwblhau camau gweithredu penodol neu gyflawni allbynnau strategol, oherwydd, mewn rhai achosion, rhannwyd nifer o gamau gweithredu lluosog gyda'i gilydd ac, mewn eraill, rhannwyd nifer o allbynnau strategol gyda'i gilydd. Mae adroddiadau cynnydd i QuEST wedi bod yn afreolaidd hyd yma, gyda dim ond dau ddiweddariad [ym mis Mai 2023 a Chwefror 2024] ar adeg ysgrifennu, fodd bynnag, yn ystod ein gwaith maes, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn bwriadu cyflwyno diweddariadau chwarterol o Awst 2024 (**Argymhelliad 2 2024**).

¹ Bydd Strategaeth Ansawdd 2021-2024 yn cael ei ddisodli gan Gynllun Ansawdd.

Argymhellion y Cynllun Archwilio Clinigol

Argymhelliad 2 2022

Canfuom nad yw'r cynllun archwilio clinigol wedi'i gymeradwyo mewn modd amserol ac nad oes gan Bwyllgor QuEST oruchwyliaeth ddigonol o gynnydd a chyflawniad. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod:

- 2.1 Y Pwyllgor QuEST yn craffu ar y cynllun Archwilio Clinigol ac yn ei gymeradwyo cyn pob blwyddyn ariannol.
- 2.2 Y Pwyllgor QuEST yn derbyn diweddariadau chwarterol ar gyflawni'r cynllun Archwilio Clinigol cymeradwy, ac adroddiadau sicrwydd gan gynnwys camau dysgu a gwella sy'n deillio o'r gwaith hwn.

- 26 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth gynllun Archwilio Clinigol a gymeradwywyd yn flynyddol gydag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd cyflawni a chamau gweithredu gwella o ganlyniad. Rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
 - cynlluniau Archwilio Clinigol a gymeradwywyd yn flynyddol, gydag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu derbyn gan QuEST; a
 - tystiolaeth o ddysgu o Archwilio Clinigol a chamau gweithredu cysylltiedig er mwyn gwella.
- 27 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Clinigol yn flynyddol a cheir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y Cynllun i QuEST, er bod lle o hyd i wella'r broses o adrodd ar ganlyniadau a dysgu.**
- 28 Mae'r Cynllun Archwilio Clinigol yn cael ei lywio gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys trafodaethau mewn grwpiau clinigol mewnol, cyflwyniadau gan reolwyr clinigol a chyfarwyddiaethau clinigol ac a nodwyd yn ofynnol oherwydd newidiadau i'r gwasanaeth clinigol. Adolygwyd swyddogaeth Archwilio Clinigol yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth ac Ebrill 2024 gan Archwilio Mewnol a oedd yn rhoi barn sicrwydd resymol. Ymhlith y materion allweddol a godwyd yn yr adroddiad oedd yr angen i gryfhau'r aliniad rhwng y Cynllun Archwilio Clinigol a Strategaeth Glinigol yr Ymddiriedolaeth, y gofrestr risgiau gweithredol, a blaenoriaethau strategol fel y nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi camau i fynd i'r afael ag argymhellion a chynlluniau Archwilio Mewnol i'w gweithredu yn ystod 2024-25.
- 29 Cymeradwyodd QuEST y Cynllun Archwilio Clinigol yn 2023-24 a 2024-25. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 2.1 2022 wedi'i gwblhau.**
- 30 Fodd bynnag, er bod yr Ymddiriedolaeth yn pwysleisio yn y Cynllun Archwilio Clinigol y gall addasu'r rhaglen archwilio pan fydd yn briodol gwneud hynny (er enghraifft, blaenoriaethu archwiliad clinigol newydd yn briodol), nid yw adroddiadau cynnydd cyflawni wedi amlygu'n gyson newidiadau i'r Cynllun ac ni ofynnir i QuEST gymeradwyo unrhyw newidiadau (**Argymhelliad 3 2024**).

- 31 Mae QuEST wedi derbyn diweddariadau cynnydd chwarterol yn erbyn y Cynllun Archwilio Clinigol ers mis Mai 2023. **Rydym yn ystyried bod Argymhelliad 2.2 2022 wedi'i gwblhau.**
- 32 Er bod adroddiadau cynnydd archwiliad clinigol mwy diweddar wedi darparu crynodeb gwell o gynnydd, mae lle o hyd i adroddiadau ar archwiliad clinigol roi sicrwydd cryfach i'r QuEST ar ei weithgaredd. Mae'r adnodd tracio Archwilio Clinigol cysylltiedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am argymhellion sy'n deillio o archwiliadau clinigol, fodd bynnag, canfu ein hadolygiad y gallai papurau nodi'n gliriach y materion allweddol a godwyd gan eu bod ond yn dal argymhellion, ac nid yw adroddiadau cynnydd yn tynnu sylw at unrhyw ganfyddiadau o archwiliadau clinigol ar hyn o bryd. Canfu'r adolygiad Archwilio Mewnol fod camau i fynd i'r afael ag argymhellion yn cael eu monitro drwy grwpiau mewnol perthnasol. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn anodd i aelodau QuEST fod yn sicr am ganlyniadau gweithgarwch Archwilio Clinigol, ac a yw dysgu o archwiliadau clinigol yn cael ei ymgorffori i wella perfformiad yr Ymddiriedolaeth heb gynnwys naratif pellach o fewn adroddiadau cynnydd (**Argymhelliad 3 2024**).

Argymhellion adolygu marwolaethau

Argymhelliad 3 2022

Nid yw'r Pwyllgor QuEST yn cael sicrwydd digonol ar adolygiadau marwolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod Pwyllgor QuEST yn derbyn adroddiadau diweddarau chwarterol i gynnwys:

- 3.1 Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd, a nifer yr adolygiadau sy'n ofynnol ond nid ydynt wedi'u cwblhau eto.
- 3.2 Unrhyw bryderon sylweddol, gwersi a ddysgwyd a pha newidiadau a wnaed o ganlyniad.
- 3.3 Diweddariadau ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad adolygu marwolaethau.

Diweddariadau ar y cynnydd sy'n gweithredu Fframwaith Adolygu Dysgu o Farwolaethau Cymru gyfan.

Argymhelliad 4 2022

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o adolygiadau marwolaethau.

Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynllun gweithredu i leihau'r ôl-groniad, gan adrodd ar gynnydd ym mhob cyfarfod QuEST.

- 33 Gwnaethom ystyried a yw QuEST yn cael sicrwydd digonol ar adolygiadau marwolaethau², gan gynnwys cynnydd i fynd i'r afael ag ôl-groniad sylweddol 2022, a gweithredu gwersi a ddysgwyd o adolygiadau. Rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
- y fframwaith adolygu dysgu o farwolaethau Cymru gyfan ar waith³;
 - tystiolaeth o ddysgu o adolygiadau marwolaethau;
 - gostyngiad yn ôl-groniad yr adolygiad marwolaethau; a
 - diweddariadau adolygu marwolaethau rheolaidd a dderbyniwyd gan QuEST
- 34 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer adolygiadau marwolaethau, fodd bynnag, nid yw wedi symud ymlaen eto yn ôl y bwriad, gan fod perfformiad amrywiol yn ymwneud â chyflwyno adolygiadau marwolaethau amserol ac mae lle i adrodd mwy cyson am weithgarwch adolygu marwolaethau, canlyniadau a dysgu.**
- 35 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau i'r wybodaeth a gyflwynwyd i QuEST ar adolygiadau marwolaethau ers ein hadolygiad diwethaf. Fodd bynnag, er bod QuEST yn derbyn gwybodaeth reolaidd am adolygiadau marwolaethau, nid yw'r wybodaeth yn cael ei hadrodd yn gyson, sy'n ei gwneud hi'n anodd deall cynnydd a heriau parhaus. Canfu ein hadolygiad o bapurau fod yr Ymddiriedolaeth wedi adrodd ei ffigur ôl-groniad i bedwar o'r chwe chyfarfod diwethaf, a dim ond ym mis Awst 2023 y derbyniodd QuEST ddata ar faint o atgyfeiriadau a dderbyniwyd o'i gymharu â faint oedd yn aros i gael eu hadolygu. **Rydym o'r farn bod Argymhelliaid 3.1 2022 ar y gweill.**
- 36 Roedd heriau wrth gynnal adolygiadau marwolaethau amserol adeg ein hadolygiad yn 2022 wedi arwain at ôl-groniad a oedd yn 800 ym mis Awst 2022. Mae data a adroddwyd i QuEST ers 2022 yn awgrymu bod perfformiad wedi amrywio'n sylweddol. Y ôl-groniad a adroddwyd ym mis Awst 2023 oedd 298, a gynyddodd i 800 ym mis Chwefror 2024 ac yna ei ostwng i 600 ym mis Mai 2024. Bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu gan y perfformiad sy'n dirywio o fewn y system gofal brys ac argyfwng ehangach, ac mae pwysau pellach yn debygol o godi o rôl statudol newydd yr Arholwr Meddygol a gyflwynwyd ym mis Medi 2024. Er bod yr ôl-groniad yn is nag yr oedd ar adeg ein hadolygiad yn 2022, mae'n parhau i fod yn uchel. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth o gynllun gweithredu gyda llwybr clir i leihau'r ôl-groniad a'i gadw'n gynaliadwy ar lefel fwy hylaw. Fodd bynnag, mae QuEST yn derbyn sicrwydd bod yr holl atgyfeiriadau yn cael eu sgrinio ar ôl eu derbyn gan aelod o'r tîm diogelwch cleifion a'u dwysáu yn ôl yr angen. **Rydym o'r farn bod Argymhellion 3.3 a 4 2022 ar y gweill.**

² Cynhelir adolygiadau marwolaethau pan fydd claf yn marw tra yng ngofal yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys wrth aros i ambiwlans gyrraedd.

³ Cyflwynwyd Fframwaith Model Dysgu o Farwolaethau Cymru Gyfan yn wreiddiol ym mis Awst 2021 ac yna ei ddiwygio ym mis Medi 2022.

- 37 Mae themâu allweddol sy'n deillio o adolygiadau marwolaethau wedi cael eu hadrodd drwy adroddiadau amrywiol i QuEST mewn tri o'r chwe chyfarfod a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2022 a Mai 2024. Nododd adroddiad Mai 2023 fod dysgu o adolygiadau marwolaethau yn cael ei ddarparu i barafeddygon. Amlygodd adroddiadau Awst a Hydref 2023 themâu allweddol yn ymwneud yn bennaf ag oedi yn y gymuned, categoreiddio galwadau a gofal diwedd oes. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfeiriad at wersi a ddysgwyd a'r camau a ddeilliodd o hynny. **Rydym o'r farn bod Argymhelliad 3.2 2022 ar y gweill.**
- 38 Ym mis Medi 2022, cymeradwyodd Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol yr Ymddiriedolaeth (CQGG) y Fframwaith Adolygu Dysgu o Farwolaethau Cymru gyfan. Mae'r Fframwaith yn darparu dull cysylltu ar y cyd a systematig ar gyfer Cymru gyfan o ran y broses adolygu marwolaethau er mwyn galluogi dysgu lleol a chenedlaethol i weithredu'r dysgu'n lleol. Er mwyn gweithredu'r Fframwaith, ym mis Hydref 2023 sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Fforwm Dysgu o Farwolaethau sy'n adrodd i'r CQGG. **Rydym o'r farn bod Argymhelliad 3.4 2022 wedi'i gwblhau.**

Argymhelliad gwerthuso ac Adolygiad Datblygu

Argymhelliad 5 2022

Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfraddau cydymffurfio Gwerthuso a Datblygu Personol isel (PADR), er enghraifft, ym mis Mehefin 2022, 59% oedd cydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth yn erbyn y targed o 85%.

Fel rhan o ymgorffori ei hymddygiad newydd, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cyfraddau PADR yn cael eu gwella ac yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni hyn.

- 39 Gwnaethom ystyried a yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwella cyfraddau cwblhau ar gyfer ei Hadolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol (PADR), a oedd yn cyflawni 59% yn erbyn y targed o 85% ar adeg ein hadolygiad yn 2022. Rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
- gwell cydymffurfiaeth PADR; a
 - cynlluniau cadarn ar waith i gyflawni gwelliannau pellach a'r targed gofynnol o 85%.
- 40 Canfuom **er bod cyfraddau cwblhau PADR wedi gwella ers ein hadolygiad gwreiddiol, maent yn parhau i fod yn is na chyfradd darged yr Ymddiriedolaeth.**
- 41 Mae cyfraddau PADR wedi gwella ers ein hadolygiad gwreiddiol, gyda chyfraddau misol yr adroddwyd amdanynt yn parhau i fod yn uwch na 70% ers mis Awst 2022, ac ar gyfartaledd o 74% ar gyfer y flwyddyn 2023-24. Fodd bynnag, mae'r perfformiad yn parhau i fod yn is na tharged yr Ymddiriedolaeth o 85%.

- 42 Mae monitro cydymffuriad PADR yn rheolaidd. Mae Pwyllgor Pobl a Diwylliant yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth PADR trwy gerdyn sgorio'r gweithlu ym mhob cyfarfod. Fodd bynnag, mae heriau parhaus sy'n gwneud cyrraedd y targed o 85% yn anodd. Mae cydymffurfio is yn parhau i fod yn bennaf o fewn y Gwasanaethau Meddygol Brys gweithredol, lle mae'n ofynnol i staff gael eu harchebu allan o ddyletswyddau gweithredol i fynychu'r cyfarfod PADR gyda'u rheolwr. Cydnabyddir hyn fel rhwystr logistaidd parhaus i wella perfformiad PADR, yn enwedig o ystyried y pwysau gwasanaeth sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i wella perfformiad ymhellach trwy gael cipolwg ar sut y gall gynyddu cyfraddau mewn meysydd sydd â chydymffurfiaid is. Fodd bynnag, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod hefyd yn ystyried ail-werthuso ei tharged o fewn y cyd-destun hwn. **Felly, rydym o'r farn bod Argymhelliad 5 2022 ar y gweill.**

Argymhelliad y dylai aelod o'r Bwrdd gynnal ymweliad

Argymhelliad 6 2022

Cyn y pandemig, roedd aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn teithiau ambiwlans ac ymweliadau â gorsafoedd, ond roedd y rhain ar hap ac nid oedd adborth yn cael ei gasglu mewn ffordd strwythuredig.

Nawr y gall ymweliadau ailddechrau, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu gweithdrefn weithredu safonol sy'n egluro proses, amlder yr ymweliadau, a sicrhau ymweliadau ar draws gweithrediadau ac ardaloedd daearyddol yr Ymddiriedolaeth. Dylai hefyd gynnwys templed safonol i ddal adborth a dysgu.

- 43 Gwnaethom ystyried a yw'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu proses glir ar gyfer ymweliadau gan aelodau'r Bwrdd ar draws busnes y sefydliad ac i ddal dysgu'n gyson trwy glywed yn uniongyrchol gan gleifion a staff. Rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
- gweithdrefn weithredu safonol glir ar waith, gyda thempledi safonol i ddal adborth a dysgu; ac
 - amserlen o ymweliadau aelodau'r Bwrdd sy'n cwmpasu pob maes o ddarparu gwasanaethau.
- 44 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth weithdrefn weithredu safonol ar gyfer aelodau'r Bwrdd sy'n cynnal ymweliadau, fodd bynnag, mae amlder a cwmpas ymweliadau, er eu bod yn cynyddu, yn amrywio, ac ar hyn o bryd nid ydynt yn nodi ac yn adrodd adborth a'r hyn a ddysgwyd i'r Bwrdd yn gyson.**
- 45 Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses glir i gefnogi aelodau'r Bwrdd i gynnal ymweliadau. Yn 2022, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Weithdrefn Weithredu Safonol

ar gyfer Ymweliadau Bwrdd sy'n cynnwys awgrymiadau a thempled ar gyfer casglu adborth a chatau gweithredu a awgrymir.

- 46 Mae ein sylwadau o gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor yn dangos bod aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi cyfleoedd i glywed gan staff a chleifion yn uniongyrchol, megis drwy straeon staff a chleifion. Fodd bynnag, er bod y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Ymweliadau Bwrdd yn cynnwys ffurflen ar gyfer cipio adborth, nid yw'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd ei chwblhau, gan ei bod yn tueddu i gael ei ddefnyddio i godi pryder ffurfiol yn unig. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod hyn er mwyn osgoi i'r broses fynd yn rhy fiwrocraidd. Yn hytrach, mae aelodau'r Bwrdd yn aml yn darparu adborth anffurfiol uniongyrchol neu'n gofyn am ragor o wybodaeth i'r cyfarwyddwyr perthnasol drwy e-bost neu yn ystod cyfarfodydd datblygu'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi adborth cyfyngedig yn unig ac mae'n debygol y byddai'r Ymddiriedolaeth yn elwa o ddarparu cyfleoedd pellach i adrodd yn ôl ar ddysgu o ymweliadau, megis drwy gyfarfodydd Cyfarwyddwr Anweithredol neu sesiynau rheolaidd wrth ddatblygu bwrdd. Byddai hyn yn cryfhau gallu'r Bwrdd i driongli'r wybodaeth a gasglwyd gyda gwybodaeth arall, i dynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu risg neu i ddatlu a rhannu arfer da.
- 47 Mae Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn cyfeirio at ymweliadau diweddar y mae wedi'u cynnal drwy adroddiad y Cadeirydd i bob cyfarfod Bwrdd. Yn fwy diweddar mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys rhestr o ymweliadau a gynhaliwyd gan yr Is-gadeirydd. Fel rhan o'i Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer ymweliadau, mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd broses ar gyfer cofnodi lleoliad ac amseriad ymweliadau'r Bwrdd, sy'n darparu map gwres rhyngweithiol. Mae'r map gwres yn dangos ymweliadau mewn amser real ac yn cael ei oruchwylio trwy ddiweddariadau dwyflwydd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Bwrdd. Mae map gwres 2023-24 yn dangos amrywiaeth sylweddol yn y ddarpariaeth ddaearyddol ac ardal wasanaeth, yn ogystal â nifer yr ymweliadau a wneir gan bob aelod o'r Bwrdd. Yn gyffredinol, cafodd ardaloedd gwledig lai o ymweliadau, gyda niferoedd uwch o ymweliadau mewn ardaloedd trefol, ac yn enwedig yng Nghaerdydd ac Abertawe. Yn ogystal, roedd amllder ymweliadau ag ardaloedd gwasanaethau gweinyddol yn uwch nag i orsafoedd ambiwlans a 111 o ganolfannau. Ac eithrio'r Cadeirydd, cynhaliodd Cyfarwyddwyr Anweithredol lai o ymweliadau nag aelodau eraill o'r Bwrdd, yn rhannol oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael yn gytundebol i Gyfarwyddwyr Anweithredol ymgymryd â'u rolau. Rydym yn ymwybodol bod cynnydd wedi bod yn nifer yr ymweliadau ers mis Ebrill 2024, yn ogystal â mwy o sylw i ardaloedd yng nghanolbarth Cymru.
- 48 Er nad oes gan yr Ymddiriedolaeth amserlen ar gyfer ymweliadau bwrdd yn y dyfodol, ar adeg ein gwaith maes, roedd yn ystyried sut i gynyddu nifer a chwmpas daearyddol ymweliadau yn y dyfodol. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn ystyried aildechrau ei harfer cyn 2023 o gylchdroi'n ddaearyddol ei gyfarfodydd Bwrdd ledled Cymru i ddarparu mwy o gyfleoedd i aelodau'r Bwrdd gyfarfod ac ymgysylltu â staff yr Ymddiriedolaeth ledled Cymru. **Felly, rydym o'r farn bod Argymhelliad 6 2022 wedi'i gwblhau.**

Argymhelliad Fframwaith Uwchgyfeirio ar y Cyd

Argymhelliad 7 2022

Nid yw'r Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd sydd ar waith gyda chyrff iechyd bellach yn effeithiol. Mae Pwyllgor Ambiwlans y Gwasanaethau Brys yn cydlynu camau i gryfhau'r trefniadau hynny.

Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr argymhellion a wneir gan yr Uned Gyflawni yn cael eu hateb yn effeithiol mewn modd amserol a chynnydd a adroddir yn rheolaidd i'r Bwrdd a QuEST.

- 49 Gwnaethom ystyried a yw'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau'r broses ar gyfer mynd i'r afael â digwyddiadau difrifol lle mae sefydliadau eraill yn ymwneud â gofal y claf. Rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
- Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd effeithiol ar waith ar gyfer digwyddiadau difrifol i gleifion; a.
 - bod argymhellion gan yr Uned Gyflawni yn cael sylw, gyda thystiolaeth o gynydd yn cael ei adrodd i'r Bwrdd a phwyllgor QuEST.
- 50 Canfuom **fod cydymffurfio â'r broses genedlaethol newydd ar gyfer ymchwilio i ddiwyddiadau difrifol ar y cyd â phartneriaid yn gryf, gyda gweithgaredd yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan bwyllgor QuEST.**
- 51 Yn 2022, cododd yr Uned Gyflenwi bryderon ynghylch cymhwyso'r Fframwaith Ymchwilio ar y Cyd ar waith i fynd i'r afael â digwyddiadau diogelwch difrifol i gleifion. Mewn ymateb, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen rhwng partneriaid i fireinio'r Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd. Diweddarwyd Polisi Cenedlaethol GIG Cymru ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion ym mis Ebrill 2023 i sicrhau arferion cyson ledled Cymru. Cymeradwyodd QuEST fabwysiadu'r Polisi Cenedlaethol a'i atodiadau ategol ym mis Awst 2023.
- 52 Ni dderbyniodd QuEST ddiweddiadau yn erbyn argymhellion yr Uned Gyflawni yn 2022 drwy ei draciwr archwilio, gan fod y traciwr archwilio wedi'i gyfyngu i argymhellion a wnaed gan archwiliad mewnol ac allanol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Fodd bynnag, rydym yn deall bod yr Ymddiriedolaeth yn ystyried bod pob un o'r pedwar argymhelliad (a oedd yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd) wedi'u cwblhau.
- 53 Mae niferoedd a themâu cyffredinol digwyddiadau sy'n dod o dan y Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd (a rennir ac a dderbyniwyd) yn cael eu hadrodd i bob cyfarfod QuEST yn yr Adroddiad chwarterol Gweithio i Wella. Roedd y cyfwelwyr yn teimlo'n hyderus bod y broses Ymchwilio ar y Cyd wedi gwella oherwydd trefniadau llywodraethu cryfach, gan gynnwys cyfarfodydd wythnosol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd i drafod pob digwyddiad.
- 54 Hyd yma, ni chafwyd asesiad o effeithiolrwydd y Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd newydd ar gyfer rheoli digwyddiadau gyda chyrff iechyd. Fodd bynnag, ar ddiwedd 2023, cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad o gydymffurfiaid yr

Ymddiriedolaeth â'r Fframwaith Ymchwilio ar y Cyd a rhoddodd farn sicrwydd rhesymol. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mai 2024. Roedd yn cynnwys chwe argymhelliad, dau ohonynt yn flaenoriaeth ganolig a phedair ohonynt yn flaenoriaeth isel. Roedd un o'r materion allweddol a godwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â'r angen i Bolisi Adrodd a Digwyddiadau Niweidiol yr Ymddiriedolaeth fod yn fwy cydnaws â Pholisi Cenedlaethol GIG Cymru ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i adolygiad polisi llawn unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi diweddarau Rheoliadau Gweithio i Wella ar gael (i ddod i rym yn hydref 2024). **Felly, rydym o'r farn bod Argymhelliad 7 2022 wedi'i gwblhau.**

Argymhelliad adrodd ar berfformiad ansawdd a dysgu

Argymhelliad 8

Canfuom fod QuESt yn cael ei wasanaethu'n dda gyda gwybodaeth o ansawdd, ond mae cyfleoedd i wella. Dylai'r ymddiriedolaeth:

- 8.1 Datblygu system i driongli themâu dysgu ar draws ei adroddiadau sicrhau ansawdd. Dylai hyn sicrhau eglurder ynghylch pa gamau gwella sydd wedi'u cymryd o ganlyniad a sut mae dysgu wedi'i ledaenu ar draws y sefydliad.
- 8.2 Gwella adroddiadau COVID-19 yn yr adroddiad ansawdd a pherfformiad integredig, trwy gynnwys gwybodaeth am y niwed a achosir i gleifion gan bwysau parhaus y gwasanaeth a achosir gan y feirws.
- 8.3 Gweithio gyda chyrrff iechyd fel bod systemau i benderfynu ar y canlyniadau i gleifion sydd wedi derbyn gwasanaethau ambiwlans brys. Dylai hyn geisio deall yn benodol y canlyniad a'r niwed sy'n deillio o fethiannau gwasanaeth fel arosiadau ambiwlans hir.
- 8.4 Datblygu mesurau canlyniadau cleifion i gefnogi ei fesurau ansawdd presennol.

- 55 Gwnaethom ystyried a yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei gwybodaeth perfformiad trwy driongli gwybodaeth o wahanol ffynonellau a datblygu nifer fwy o fesurau canlyniadau cleifion. Rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
 - gwella trefniadau adrodd a monitro perfformiad sy'n cefnogi triongli ac adnabod themâu;
 - gweithio ar y cyd effeithiol gyda byrddau iechyd i fonitro canlyniadau i gleifion, gan gynnwys canolbwyntio ar ganlyniadau arosiadau ambiwlans hir; a
 - mesurau canlyniadau cleifion ar waith, sy'n cael eu monitro'n rheolaidd.
- 56 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wynebu heriau wrth adrodd canlyniadau cleifion oherwydd anawsterau wrth uno gwybodaeth ar draws**

sefydliadau. Fodd bynnag, mae mwy y gall ac y dylai'r Ymddiriedolaeth ei wneud i driongli themâu ar draws metrigau a nodi dysgu.

